



# Diweddariad am raglen Maethu Lles

Cynllun peilot Cymru gyfan 2019-23



# Ynglŷn â Maethu Lles

Mae Maethu Lles yn rhaglen arloesol, a ariannir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflenwir gan Y Rhwydwaith Maethu.

Cynlluniwyd Maethu Lles o safbwynt taith plentyn drwy ofal, a'r perthnasoedd y mae'n eu magu. Mae'n defnyddio safle'r Rhwydwaith Maethu fel y brif elusen faethu i ddarparu rhaglen amlasiantaethol ledled gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg.

Daw Maethu Lles â'r holl weithwyr proffesiynol ynghyd sy'n gysylltiedig â chynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys gofalwyr maeth. Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb statws i bawb sy'n gysylltiedig â'r 'tîm o amgylch y plentyn'. Mae Maethu Lles yn annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio, gan ganolbwyntio ar wella deilliannau lles i blant a phobl ifanc. Mae'n creu iaith a rannir ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan ddod â phobl ynghyd a rhannu ymarfer gorau ledled ffiniau gwasanaethau, gyda'r nod o wreiddio ymagwedd a rannir.

## Amcanion Maethu Lles

Nod Maethu Lles yw gwella deilliannau lles ac addysgol i blant sy'n cael profiad gofal yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant sy'n derbyn gofal. Yn benodol, nod y rhaglen yw:

1. Nodi a rhannu'r gwerthoedd a'r egwyddorion craidd sy'n helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i ffynnu.
2. Datblygu sgiliau a chymwyseddau yn gyffredin sy'n helpu i gyfarparu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i wireddu'u potensial.
3. Dod yn hyderus mewn ymagwedd ar y cyd a chyson tuag at ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, fydd, yn ei dro, yn tanio uchelgais ac yn eu helpu i ganfod llwyddiant.
4. Bod yn eiriolwyr gweithgar dros y plant a'r bobl ifanc y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt, boed hynny'n unigol neu'n gorfforaethol.

**'Rwyf yn awr yn teimlo'n fwy hyderus yn fy rôl fel gofalwr maeth ac mae gennyf yr hyder i leisio barn gan imi dderbyn yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon o'r materion dan sylw.'**

**Gofalwr maeth**

# Crynodeb

Ar ôl llwyddiant cynllun peilot rhanbarthol Cwm Taf, oedd yn weithredol yn 2017-19, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ariannu rhaglen beilot dair blynedd yn rhagor i'w chyflwyno fesul cam ledled Cymru gan ganolbwyntio ar gyflawni ranbarthol.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu oediad yn y cynllun cyflenwi wyneb yn wyneb ar gyfer y dosbarthiadau meistr, a defnyddiodd y tîm cyflenwi yr amser i ddiwygio ac i addasu deunyddiau'r dosbarthiadau meistr fel y gellid eu cyflenwi'n rhithiol. Cwblhawyd gwaith ymgysylltu rhanbarthol ledled gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg hefyd yn ystod yr adeg hon.

Dechreuodd cyflenwi rhithiol o'r dosbarthiadau meistr rhanbarthol ym mis Ionawr, 2021, gyda'r nod o gyflenwi pum cylch o ddosbarthiadau meistr ym mhob un rhanbarth yng Nghymru.

Caniatawyd cynigiad ar gyfer estyniad un flwyddyn ym mis Mawrth, 2022 i roi cyfrif am yr oedi cychwynnol yn yr amserlen gyflenwi a achoswyd gan y pandemig ac i ganiatáu ar gyfer cwblhau cynllun cyflenwi'r rhaglen yn llawn.

**'Roedd yn ardderchog. Diddorol, gan fy mod wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot cyntaf, a gyflenwyd yn y cnawd. Mae manteision ac anfanteision i'r ddau ond mae'r cynnwys yn dal yn ardderchog.'**

Gofalwr maeth

## Maethu Lles

Targed	Mewnbynnau	Allbynnau	Deilliannau	Effaith
<p><b>Ar gyfer pwy y mae'r rhaglen?</b></p> <p>Gofalwyr maeth Gweithwyr cymdeithasol Gweithwyr iechyd Staff addysg Arall (mae'n cynnwys Cyfiawnder Ieuencid, gweithwyr Ieuencid).</p>	<p><b>Beth mae'r rhaglen yn ei ddarparu?</b></p> <p>Pum sesiwn Dosbarth Meistr rhanbarthol – hygyrch, ar-lein, amlddisgyblaethol. Raglen ddatblygu arloesol – hyfforddiant pellach ar gyfer gofalwyr maeth penodol. Cynnwys gyda neges gyson wedi'i gwreiddio mewn addysgeg gymdeithasol. Cymorth Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.</p>	<p><b>Beth mae'r rhaglen yn ei gynhyrchu?</b></p> <p>Dealltwriaeth gyffredin o'r rolau yn y tîm o amgylch y plentyn. Ffocws ar arferion gweithio ymarferol, cyfannol ac sy'n canolbwyntio ar blant. Mwy o ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad. Cyfle i ofalwyr maeth ddylanwadu ar ddatblygu gwasanaeth ac ymarfer.</p>	<p><b>Pa newid rydym yn disgwyl ei weld?</b></p> <p>Mae gofalwyr maeth yn fwy hyderus ac yn cael eu cynorthwyo'n rheolaidd i eiriol dros y plant yn eu gofal. Cydraddoldeb statws i ofalwyr maeth fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn. Ymarferwyr sy'n fwy galluog i gynorthwyo anghenion lles plant a phobl ifanc. Gwelliant mewn lles gofalwyr maeth.</p>	<p><b>Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud?</b></p> <p>Gwell deilliannau lles i blant a phobl ifanc. Gwell profiadau addysgol i blant a phobl ifanc. Cydnabod a grymuso gofalwyr maeth i wneud maethu y gorau y gall fod. Sefydlogrwydd lleoliad i blant a phobl ifanc.</p>

### Tybiaethau:

Beth y mae ar y rhaglen ei angen?

### Cadarnhad a chefnogaeth gan

Llywodraeth Cymru, Maethu Cymru

### Cadarnhad a chefnogaeth gan

Penaethiaid Gwasanaethau, argaeledd staff o dimau gofal cymdeithasol ac addysg

# Addysgeg gymdeithasol – beth ydyw?

Mae addysgeg gymdeithasol yn ddisgyblaeth academaidd sy'n ffurfio craigwely gofal cymdeithasol mewn rhannau helaeth o Ewrop a Llychlyn.

Dangosodd tystiolaeth y gall ymagwedd addysgol gymdeithasol tuag at ofal maeth ddarparu fframwaith moesegol a damcaniaethol sy'n gwella ac yn adeiladu ar arferion presennol. Drwy gynorthwyo'r gorchwyl o ddatblygu gwell perthnasoedd, gall addysgeg gymdeithasol ddarparu buddion lles pwysig i blant a phobl ifanc, eu gofalwyr maeth, a gweithwyr proffesiynol eraill yn y tîm o'u hamgylch.

Gall addysgeg gymdeithasol helpu plant a phobl ifanc mewn gofal maeth i gael profiad cadarnhaol o fywyd teuluol, gyda pherthnasoedd dyfnach, mwy ymddiriedus a chyfartal, lle mae gofalwyr maeth yn gallu deall eu hanghenion yn well.

Datblygwyd Maethu Lles gan ddefnyddio'r egwyddor nad oes yn rhaid ichi fod yn arbenigwr ar addysgeg gymdeithasol i ddeall y cysyniad ac i weithredu'r egwyddorion yn eich arferion gwaith.

## Pecyn cymorth addysgeg gymdeithasol

Mae Maethu Lles yn defnyddio'r cysyniadau addysgeg gymdeithasol a ganlyn i roi pecyn cymorth i gyfranogwyr y gallant ei ddefnyddio i gydweithio ac i gynorthwyo plant a phobl ifanc.


**'Gwnes wirioneddol fwynhau'r parth dysgu a thrafodaethau a syniadau'r trydydd cyffredin. Rwyf hefyd yn canfod yr ystafelloedd trafod mewn grwpiau bychain yn bleserus ac yn wych i gyfarfod ag eraill ac i glywed syniadau a hanesion pobl eraill.'**

Gofalwr maeth


**Tair Pi:** Cynnal y cydbwysedd rhwng yr hunan proffesiynol, personol a phreifat



**Trydydd Cyffredin:** Gweithgareddau ar y cyd i ddatblygu perthnasoedd cryfach



**Parth dysgu:** Deall sut mae'r parth dysgu yn ein helpu i ddatblygu a thyfu




**Pedair Eff:** Model ar gyfer myfyrio ar heriau a chynllunio ar gyfer y dyfodol

<p><b>Ffeithiau</b></p> <p>Disgrifiad gwrthrychol o'r hyn a ddigwyddodd</p>	<p><b>Teimladau</b></p> <p>Disgrifiad o'r teimladau yn gysylltiedig â'r ffeithiau</p>
<p><b>Canfyddiadau</b></p> <p>Pa synnwyr y gallwn ei wneud o'r ffeithiau a theimladau? Beth rydym yn ei ddysgu o edrych ar y ddau?</p>	<p><b>Y Dyfodol</b></p> <p>Beth y gallwn ei roi ar waith? Beth y gallwn ei wneud yn well neu'n wahanol y tro nesaf?</p>

# Lles: diffiniad gwaith

Yn y rhaglen Maethu Lles, ceisiwn gael ymagwedd gyfannol tuag at les y gellir ei hystyried o ran yr hyn y mae ar unigolyn ei angen i fod yn gyfforddus, iach, a dedwydd. Yn yr ystyr cyffredinol hwn, lles yw pan fo anghenion sylfaenol unigolyn yn cael eu diwallu.

## Anghenion sylfaenol



## Y 10 egwyddor lles

1. Mae'n rhaid diwallu holl anghenion y plentyn – mae'n hanfodol deall ac ymateb i'r plentyn neu'r person ifanc cyfan i wella'u lles.
2. Bydd safbwynt bywyd a barn am y byd ehangach sydd gan bob person yn wahanol, yn deillio o'u cefndir, eu profiadau a'u meddylfryd eu hunain.
3. Ni ellir dadwneud yr hyn sydd wedi digwydd ond gellir ei ddeall a darparu gwersi ar gyfer y dyfodol.
4. Mae annog dyhead ac uchelgais yn hanfodol i ddatblygu agweddau cadarnhaol.
5. Mae perthnasoedd da wrth graidd lles unigolyn.
6. Mae ar y rheiny sy'n gweithio â phlentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal angen gwybod y gwahaniaeth rhwng ymddygiadau'r hunan proffesiynol, yr hunan personol a'r hunan preifat, ac ym mha sefyllfaoedd y mae'r ymddygiad priodol yn gweddu.
7. Caiff gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol eu meithrin orau drwy weithgareddau ymarferol a rannir rhwng plentyn / person ifanc a gofalwr.
8. Mae dysgu i helpu'ch hun cyn bwysiced â dysgu magu perthnasoedd ag eraill.
9. Mae angen i'r gwerthoedd a'r agweddau a rannir sydd gan bawb sy'n gysylltiedig â phlentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gael eu gwneud yn eglur a thanategu penderfyniadau ynghylch eu lles.
10. Mae gan bawb sy'n gysylltiedig â phlentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal, yn cynnwys gofalwyr maeth a'r plentyn / person ifanc, gydraddoldeb statws yn y berthynas.

**'Roedd hi'n ddefnyddiol ystyried anghenion pawb sy'n cymryd rhan ym mywydau'r plant y gofalwn amdanynt. Mae bod ag ymagwedd gyfannol yn helpu i gynnig ymdeimlad o berthyn, a'r angen i fod yr un mor gysylltiedig wrth flaenoriaethu llais y plentyn a diwallu anghenion y plentyn.'**

Gofalwr maeth

# Sut y cyflenwir y rhaglen Maethu Lles

## Dosbarthiadau meistr

Darpariaeth ranbarthol o bum dosbarth meistr â thema a gyflenwir i aelodau amlddisgyblaethol sy'n gweithio yn y tîm o amgylch y plentyn (gofal cymdeithasol, iechyd, addysg, a gwasanaethau allanol, yn cynnwys cyfiawnder ieuencid).

Mae pob dosbarth meistr yn canolbwyntio ar ddwy o egwyddorion Maethu Lles, sy'n rhoi lle i ystod o siaradwyr gwadd a recriwtiwyd yn rhanbarthol, gweithgareddau rhyngweithiol, ystafelloedd trafod mewn grwpiau bychain a chanolbwyntio ar ymarfer myfyriol.

Nod y dosbarthiadau meistr yw cyflawni profiad dysgu cydgynhyrchiol ar gyfer gofalwyr maeth a'u cydweithwyr proffesiynol. Drwy'r sesiynau rhyngweithiol hyn, anogir pawb i rannu'u profiadau a gwahanol safbwyntiau pob un rôl. O ganlyniad, dros y pum dosbarth meistr, dengys adborth gan gyfranogwyr eu bod wedi ennill mwy o ddealltwriaeth o, a pharch tuag at, rôl y naill a'r llall.

Thema gref mewn adborth oddi wrth gynrychiolwyr oedd y pwysigrwydd o gydweithio a bod y cyfarwydd yn fwy na chyfanswm ei rannau.

## Dosbarth meistr 1: Gwybod beth yw anghenion, a'u diwallu

Mae'n rhaid diwallu pob angen sydd gan blentyn, a chydabod y bydd safbwynt bywyd pob un person a'r byd ehangach yn wahanol.

## Dosbarth meistr 2: Byw a thyfu

Gwersi ar gyfer y dyfodol ac annog dyhead ac uchelgais.

## Dosbarth meistr 3: Y fi, y chi, y ni a hwythau

Magu perthnasoedd da ac ymddygiad priodol.

## Dosbarth meistr 4: Bod yn ymarferol

Caiff gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol eu meithrin orau drwy weithgareddau ymarferol.

## Dosbarth meistr 5: Gweithio fel un

Gwerthoedd ac agweddau a rannir, a chydaddoldeb statws yr holl bobl hynny sy'n gysylltiedig â phlentyn / person ifanc sy'n derbyn gofal.


**'Drwy'r holl ddosbarthiadau meistr, roedd yna'r angen hwn inni oll gydweithio. Dyna oedd y neges waelodol fawr i mi ein bod ni oll yn elfennau allweddol ym mywyd person ifanc. Ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn wneud gwahaniaeth, nid drwy weithio ar ein pen ein hunain. A chredaf fod honno'n neges eitha' nerthol a gafwyd, mewn gwirionedd.'**

**Cydweithwyr proffesiynol**

# Gweithio rhanbarthol ledled Cymru

Gweithiodd Maethu Lles yn rhanbarthol â thimau ledled Cymru. Mae hyn wedi cynnwys gweithio'n agos â strwythur Maethu Cymru a'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol.

Rhanbarth	Awdurdodau Lleol
Gogledd Cymru	Ynys Môn, Gwynedd, Conwy Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro
Gorllewin Morgannwg	Abertawe, Castell Nedd Port Talbot
Gwent	Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Torfaen
Cwm Taf Morgannwg	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd, Bro Morgannwg






# Rhanddeiliaid Maethu Lles

Mae Maethu Lles yn ymagwedd amlddisgyblaethol ac rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwasanaethau sy'n ffurfio'r 'Tîm o amgylch y plentyn' fel cyfranogwyr Dosbarth Meistr a siaradwyr gwadd, fel ei gilydd.

## Y tîm o amgylch y plentyn



'Credaf ei fod wedi rhoi teimlad imi o fod yn fwy o ran o dîm... mae'r hyn rwyf i'n ei feddwl yn golygu lawn cymaint â'r hyn y maen' nhw'n ei feddwl.'

Gofalwr maeth

## Oriau dysgu a mynychwyr

Cyflenwyd **166**  
o ddsbarthiadau meistr

**8,372** o oriau dysgu  
ledled Cymru

**3,350** o fynychwyr

**70%** gofalwyr maeth a  
gofalwyr sy'n berthnasau

**17%** gofal  
cymdeithasol

**13%** addysg  
ac iechyd

## Roedd siaradwyr ar gyfer y rhaglen yn cynnwys:

- Gofalwr maeth
- Gweithiwr cymdeithasol
- Athro
- Seicolegydd addysgol
- Arbenigwr hyfforddi emosiynau
- Therapydd chwarae
- Therapydd lleferydd ac iaith
- Pennaeth gwasanaethau plant
- Nyrs plant sy'n derbyn gofal
- Cydgysylltydd plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

Teimlai gofalwyr maeth y gwerthfawrogwyd eu barnau fel aelodau'r tîm yn fwy o ganlyniad i'r ymagwedd amlddisgyblaethol hon.

'Meddyliais ei fod yn un o'r rhai gorau imi erioed fod arno. Cofiaf feddwl, "Ew, pe gallai ond pob hyfforddiant fod fel hyn".'

Gofalwr maeth

# Arloeswyr

Mae arloeswyr Maethu Lles yn ofalwyr maeth profiadol ac yn gydweithwyr proffesiynol sydd wedi mynychu'r dosbarthiadau meistr, fydd, yn ychwanegol at y sgiliau a'r profiad y byddant yn eu rhoi i'r rôl, yn derbyn hyfforddiant a chymorth i'w helpu i raeadru'r ddysg o'r dosbarthiadau meistr o fewn eu gwasanaeth.

Lansiwyd y rhaglen datblygu arloeswyr ym mis Tachwedd, 2021. Mae yna gyfres o bum sesiwn datblygu wedi'u cynnig i unrhyw arloeswyr a nodir ym mhob un rhanbarth:

- cyflwyniad i arloeswyr Maethu Lles
- mentora cymheiriaid
- tîm o amgylch y plentyn
- grymuso eraill
- gofalu amdanoch.

Mae rhai gweithgareddau y gallai arloeswr Maethu Lles eu gwneud yn cynnwys:

**Cefnogaeth gan gymheiriaid:** gweithredu fel ffocws i ofalwyr maeth i'w helpu i ddeall a gwneud y mwyaf o'u rôl yn cynorthwyo lles plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth am Maethu Lles mewn grŵp cymorth neu ar gwrs Sgiliau i Faethu.

**Hyrwyddo ac eiriol:** gweithio â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu i ymgysylltu ag amcanion y prosiect. Gallai hyn gynnwys sesiynau cyfnos mewn ysgolion neu fynychu cyfarfodydd i rannu'u profiad o'r rhaglen Maethu Lles.

**Cynorthwyo newid yn y gwasanaeth:** gweithio'n rhagweithiol â gwasanaethau maethu i ganfod ffyrdd newydd o gydweithio i wella lles plant sy'n derbyn gofal.

**'Roedd hi'n ddefnyddiol siarad am ein hangen am gefnogaeth gan gymheiriaid fel gofalwyr maeth. Byddai mor fuddiol cael gofalwyr eraill i droi atynt am gefnogaeth neu i gyfarfod weithiau - gall maethu fod yn eitha' arwahanol.'**

Gofalwr maeth

**'Mae'n un o'r digwyddiadau hyfforddi ar-lein mwyaf llyfn rwyf wedi bod arno. Rwyf wedi bod ar dipyn ohonynt, gyda maethu a chyda fy ngwaith dydd arferol. Y ffordd y câ'i redeg, roedd o mor llyfn. Roedd ei drefniant a'i weithrediad yn ardderchog.'**

Gofalwr maeth

## Gweithgareddau arloeswyr yng Nghymru

Crëwyd cyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'r arloeswyr.

Ar lefel lleol, gweithiwn ag awdurdodau lleol unigol i ddatblygu'r rôl o arloeswr i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a'r gymuned faethu lleol. Rheolir y rôl gan yr awdurdod lleol ac fe'i cynlluniwyd i fod yn hyblyg fel y gall sgiliau a phrofiadau canfyddadwy pob un arloeswr gael eu defnyddio a'u meithrin yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Ffurfiwyd nifer o grwpiau arloeswyr rhanbarthol. Dyma gyfle i barhau ag ymagwedd ranbarthol y rhaglen; mae'n cynorthwyo i rwydweithio a magu perthynas arloeswyr yn y rhanbarth. Gweithiwn yn agos â'r rheolwyr datblygu rhanbarthol i ystyried cyfleoedd dichonol i bob un grŵp rhanbarthol o arloeswyr sy'n gweithio gyda'i gilydd.

Crëwyd cyfres o ddigwyddiadau cenedlaethol i roi cyfle i arloeswyr rwydweithio â'u cymheiriaid o arloeswyr ledled Cymru. Byddant yn clywed oddi wrth ystod o siaradwyr gwadd ynglŷn â phynciau sydd wedi'u nodi gan yr arloeswyr a byddant yn rhan o ymgynghori cenedlaethol i borthi i'r gwaith o ddatblygu profiad maethu cyson drwy Gymru i gyd. Byddant yn adborthi'n rheolaidd am eu profiadau ac am gynaliadwyedd rôl yr arloeswr ar gyfer y dyfodol.

### Lleol

**Gofynnir i arloeswyr eistedd ar y bwrdd rhianta corfforaethol, yn cynrychioli rôl y gofalwr maeth ar gyfer yr awdurdod lleol.**

**Arloeswyr yn cymryd rôl wrth recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth newydd, yn cyflwyno'u hunain fel arloeswr a mentor cymheiriaid.**

**Rolau mentora cymheiriaid i arloeswyr, yn cefnogi'r ymrwymiad cenedlaethol gan Maethu Cymru i gael cynllun mentora cymheiriaid ym mhob un awdurdod lleol ledled Cymru.**

**Arloeswyr yn mynychu ac yn cynorthwyo digwyddiadau recriwtio gofalwyr maeth.**

**Arloeswyr yn cynorthwyo i gyflenwi hyfforddiant.**

### Rhanbarthol

**Engheifftiau o ymarfer da mewn grwpiau rhanbarthol**

**Rhwydweithio â'u harloeswyr sy'n gymheiriaid o'r rhanbarth.**

**Rhannu ymarfer a phrofiadau da.**

**Creu adnodd Padlet Lles ar gyfer gofalwyr maeth.**

**Datblygu llawlyfr i arloeswyr i greu cysondeb ar gyfer y rôl.**

**Mynychu a threfnu digwyddiadau rhanbarthol.**

**Cyfrannu tuag at gynlluniau a ffrydiau gwaith rhanbarthol.**

### Engheifftiau o'n rhaglen o ddigwyddiadau cenedlaethol

**Hyfforddi emosiynau**

**Slit – Ffyrdd creadigol o gyfathrebu**

**Ymarfer myfyriol a mentora ymarferol**

**Parti Nadolig**

**Ymgynghoriad Maethu Cymru**

**Ail-fframio honiadau**

**Lludedd Tosturi a hunanofal**

**Dathliad diwedd blwyddyn**

# Gwerthusiad CASCADE

Gwerthuswyd Maethu Lles gan CASCADE a gyhoeddodd gyfres o ganfyddiadau, yn ogystal ag ystyried effaith a photensial y rhaglen ei hun.

## Canfyddiadau:

### Ansawdd y ddarpariaeth:

- Dechreuodd y dosbarthiadau meistr wyneb yn wyneb ond fe'u hataliwyd oherwydd cyfyngiadau symud yn ystod yr haint Covid. Yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cychwynnol, cafodd y dosbarthiadau meistr eu hogi, eu hailgalibradu a'u gwneud yn fwy rhanbarthol fel y gellid eu darparu ar-lein, ac i gynrychioli enghraifft wych o gyflenwi rhithiol effeithiol.
- Mynychodd y tîm cyflenwi hyfforddiant addysgeg gymdeithasol yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cychwynnol, ac mae hyn wedi'i wreiddio yn llawer mwy eglur o fewn y cynnwys.
- Derbyniodd y cynnwys groeso llethol, ac fe'i hategir gan ystod o daflenni a ddsbarthwyd a deunyddiau atodol.
- Mae'r cynnwys wedi'i wella'n fawr o'i gymharu â'r cynnwys peilot yn 2019.

- Caiff yr hwyluso'i brofi fel deniadol a rhyngweithiol. Gwnaed sylwadau cadarnhaol am sgil ac angerdd yr hwyluswyr.
- Gwnaeth y ddarpariaeth ar-lein bresenoldeb yn llawer mwy dichonadwy i ofalwyr maeth prysur a chydweithwyr proffesiynol.

### Buddion ymglymiad amlddisgyblaethol:

- Gwnaed sylwadau'n bell ac agos am y cyflwyniadau gan benaethiaid gwasanaethau, a gwelir eu bod yn rhoi urddas a chymeradwyaeth i'r hyfforddiant.
- Cafodd y dosbarthiadau meistr gyfraniad gan siaradwyr arbenigol o ystod eang o ddisgyblaethau sy'n gweithio â phlant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys lleferydd ac iaith; mae'r rhain wedi cael croeso neilltuol o dda. Mae llawer o'r siaradwyr yn lleol, gan fod dosbarthiadau meistr yn neilltuol i bob un rhanbarth.
- Caiff natur amlddisgyblaethol yr hyfforddiant ei werthfawrogi'n enfawr. Rhoddir gwybod am gynnydd mewn parch ymysg aelodau'r tîm.

**'Pan ddaw gofalwyr maeth newydd i mewn i'r system, ac mae arnynt angen llawer mwy o gymorth, os gallwn helpu a thywys pobl, yn amlwg rydym wedi bod yno, rydym wedi'i brofi. Credaf fod yna ran fawr i'w chwarae gyda chynorthwyo gofalwyr maeth newydd a ddaw i mewn.'**

Gofalwr maeth

**'Yn sydyn, fe wnaeth imi sylweddoli bod fy mhrofiadau yn werth rhywbeth, ac os gallaf helpu rhywun arall i beidio mynd drwy'r rhan negyddol o broses ar eu pen eu hunain, fel honiadau a phethau felly, os gallaf gerdded gyda rhywun a'u helpu nhw, yna credaf cymaint o rodd y bydd hynny i ofalwyr maeth eraill.'**

Gofalwr maeth

# Gwerthusiad CASCADE

## Effaith y rhaglen hyd yn hyn:

- Mae'r prif negeseuon ynglŷn â phwysigrwydd dod â'r gofalwr maeth i mewn i'r tîm o amgylch y plentyn a gwneud penderfyniadau cysylltiedig wedi'u derbyn ac wedi'u dysgu. Rhoddodd cynrychiolwyr wybod y caiff addysg a gofalwyr maeth yn awr eu cynnwys yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o amgylch y plentyn.
- Mae yna lawer o enghreifftiau o'r sgiliau a'r ddysg a drosglwyddir i ymarfer ac sy'n ffurfio sail y drafodaeth rhwng gofalwyr maeth ac ymarferwyr yn y maes.
- Rhoddodd cynrychiolwyr wybod am lefelau uwch o empathi dros blant, ac mae mwy o ymagweddau a hysbysir gan drawma wedi'u mabwysiadu.
- Mae gan gynrychiolwyr ymdeimlad cryf o foeseg sylfaenol addysgeg gymdeithasol a'r syniad o weithio â'r plentyn cyfan. Mae llawer o'r ddysg a'r ddealltwriaeth am bwysigrwydd profiadau blaenorol plant hefyd wedi'i gynnal.

- Mae'r rhaglen wedi gwreiddio dealltwriaeth eglur o rôl y rhiant corfforaethol fel cyfrifoldeb ar bawb.
- Mae gofalwyr maeth wedi teimlo'u bod wedi'u grymuso i ddod yn eiriolwyr cryfach dros y plant yn eu gofal, ac maent wedi gallu darparu llawer o enghreifftiau o hyn inni.

## Ystyriaethau ar gyfer gwella:

- Mae yna lai o siaradwyr a gafodd brofiad gofal nag yn y cynllun peilot blaenorol.
- Mae gweithio ar-lein yn darparu llai o gyfleoedd i rwydweithio.
- Nid yw cydweithwyr proffesiynol wedi mynychu'r dosbarthiadau mistr mor helaeth ag y gobeithiwyd, yn enwedig y rheiny o addysg ac iechyd. Lle maent wedi mynychu, peidiodd llawer â mynychu'r pum sesiwn i gyd.

**Casgliad:** Mae Maethu Lles yn ffordd effeithiol o hyrwyddo addysgeg gymdeithasol, lles a'r tîm o amgylch y plentyn, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth.

**'Mae'n dda gweld cynifer o bobl yn dod ynghyd ac yn rhannu amrywiol brofiadau. Roedd y cyflwyniadau o ansawdd wych, ac roedd yr hwyluswyr rhanbarthol yn groesawgar a phrofiadol iawn.'**

Cydweithiwr proffesiynol

# Argymhellion

Gwnaeth CASCADE 20 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Yn allweddol i'r argymhellion hyn y mae:

'Byddai ymrwymiad cyfnod hwy i'r rhaglen yn darparu cynaliadwyedd ac yn galluogi awdurdodau i wreiddio'r ddysg o Maethu Lles.'

Mae CASCADE yn argymhell bod y dosbarthiadau meistr yn parhau i gael eu cyflenwi, ar-lein, ac i gynulleidfa ranbarthol. Dylai aelodau'r tîm o amgylch y plentyn gael eu hannog a'u cyfarwyddo i fynychu, gyda mwy o fewnbwn oddi wrth y rheiny sydd â phrofiad gofal.

Gwnaeth CASCADE hefyd argymhellion am y logisteg o gyflenwi'r rhaglen Dosbarth meistr, yn cynnwys: sicrhau dyddiadau ymhell o flaen llaw, lleihau'r amser a dreulir yn atgrynhoi egwyddorion y rhaglen, cynyddu'r amser myfyrio, ac ychwanegu mwy o wybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru newydd.

## Casgliad

Mae yna yn amlwg le i barhau â'r dosbarthiadau meistr ac i ymgysylltu â chanran uwch o'r gweithlu gofal maeth, timau maethu a gweithwyr cymdeithasol gofal plant, a chydweithwyr addysg ac iechyd ledled Cymru. Yn unol â'r argymhellion, gellid ymestyn y rhaglen i weithwyr preswyl, y rheiny sy'n gofalu am blant o dan drefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a rhieni sydd wedi mabwysiadu'n ddiweddar.

Ar lefelau lleol a rhanbarthol fel ei gilydd, gallai'r rôl o arloeswr dyfu a datblygu i gynorthwyo gyda gweithgareddau megis:

- recriwtio, gweithredu fel 'hyrwyddwyr recriwtio'.
- cefnogaeth gadarnach gan gymheiriaid i ofalwyr newydd neu fel rhan o wasanaeth cofleidiol ar gyfer y rheiny sy'n maethu plant fel cam-i-lawr o breswyl.
- cyflenwi dosbarth meistr neu gyflenwi sesiynau byrrach ar gyfer timau amlasiantaethol o fewn iechyd ac addysg.

Byddai hefyd yn cynorthwyo cynllun gwaith Llywodraeth Cymru i ddileu elw wrth i'r arloeswyr ddatblygu ffocws ar gynorthwyo sefydlogrwydd mewn lleoliad o fewn gwasanaethau awdurdodau lleol.

**'Rwyf yn ffyrnig o amddiffynnol o'r plant yn fy ngofal, byddaf yn parhau i wneud fy ngorau ond pan fyddaf yn teimlo'n ddigalon, rwyf am ddal i fynd, gan fod heddiw wedi ail-gadarnhau'r rôl bwysig sydd gennym a'r newidiadau a wnawn.'**

**Gofalwr maeth**

**'Rwyf yn awr yn teimlo'n fwy hyderus yn fy rôl fel gofalwr maeth ac mae gennyf yr hyder i leisio barn gan imi dderbyn yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon o'r materion dan sylw.'**

**Gofalwr maeth**



**The  
Fostering  
Network**  
**Y  
Rhwydwaith  
Maethu**

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, a ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau'r plant mewn gofal maeth.

Cynorthwywn ofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant a gweithiwn â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu ymarfer gorau.

Gweithiwn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal maeth yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth a wna gofal maeth. Hyrwyddwn faethu a cheisiwn greu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.

 thefosteringnetwork

 @fosteringnet

 @thefosteringnetwork

[thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

Swyddfa gofrestrdig: 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA.

Elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr 280852 ac yn yr Alban SC039338.

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277; Rhif cofrestru TAW 231 6335 90.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

 **CASCADE**